Bwrdd Diogelu Oedolion Rhanbarthol Caerdydd a'r Fro
BDORhCaF
C&VRSAB
Cardiff & Vale of Glamorgan Regional Safeguarding Adults Board

Bwrdd Diogelu Plant Rhanbarthol Caerdydd a Bro Morgannwg
Cardiff and Vale of Glamorgan Regional Safeguarding Children Board

CYNLLUN BLYNYDDOL
BWRDD DIOGELU RHANBARTHOL CAERDYDD A BRO MORGANNWG

2019 – 2020

CYNNWYS

	Tudalen
CYFLWYNIAD EIN DATGANIAD CENHADAETH	3
BETH YW DIOGELU?	4
BETH YW BWRDD DIOGELU?	4-5
AELODAETH	6-9
STRWYTHUR	10
MEYSYDD BLAENORIAETH AR GYFER 2018/2019	11
BLAENORIAETH 1	12-14
BLAENORIAETH 2	15
BLAENORIAETH 3	16
CYLLIDEB Y BWRDD	17
CYSYLLTU Â NI	18

CYFLWYNIAD

Mae'r Cynllun Blynyddol hwn yn nodi blaenoriaethau strategol, camau gweithredu allweddol, cerrig milltir a mesurau perfformiad, ynghyd â'r partneriaid cyfrifol a strwythur ar gyfer y cyfnod o fis Ebrill 2019 i fis Mawrth 2020. Mae'n rhoi ystyriaeth i ofynion cyfredol a osodir ar y Byrddau Diogelu Plant a'r Byrddau Diogeli Oedolion gan Lywodraeth Cymru a'r canllawiau statudol sy'n berthnasol â Rhan 7 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. O dan y canllaw hwnnw, mae'n ofynnol i Fyrddau Diogelu Plant baratoi cynlluniau blynyddol, i'w cyhoeddi cyn dechrau pob blwyddyn ariannol, a pharatoi a chyhoeddi adroddiad blynyddol bob mis Gorffennaf yn cynnwys tystiolaeth o'r cynnydd a wnaed yn erbyn Cynllun Blynyddol y flwyddyn flaenorol. Mae'r Ddeddf, a ategir gan y rheoliadau, yn darparu ar gyfer pryd a sut y caiff y cynlluniau ac adroddiadau blynyddol eu cyhoeddi ac yn nodi cynnwys y cynlluniau blynyddol a'r adroddiadau blynyddol.

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg / This document is available in English.

EIN DATGANIAD CENHADAETH

Bydd Bwrdd Diogelu Plant Rhanbarthol Caerdydd a Bro Morgannwg yn sicrhau bod trefniadau effeithiol ar waith i amddiffyn y plant hynny yn y rhanbarth sydd mewn peryg o gael eu cam-drin, eu hesgeuluso neu eu hecsploetio.

Bydd Bwrdd Diogelu Oedolion Rhanbarthol Caerdydd a Bro Morgannwg yn diogelu oedolion yn ei ardal sydd ag anghenion gofal a chymorth (p'un ai a yw'r awdurdod lleol yn diwallu unrhyw rai o'r anghenion hynny neu beidio) ac sy'n cael eu cam-drin neu eu hesgeuluso neu sydd mewn peryg o gael profiad o'r fath. Bydd y Bwrdd yn ceisio atal yr oedolion hynny yn ei ardal, rhag bod mewn peryg o gael eu cam-drin, eu hesgeuluso neu unrhyw fath arall o niwed a bydd hefyd yn cymryd y cyfrifoldeb cyffredinol dros herio asiantaethau i sicrhau bod mesurau effeithiol ar waith i ddiogelu ac atal sefyllfaoedd o'r fath.

I gyflawni'r nodau hyn bydd y Byrddau:

- Yn hyrwyddo datblygiad o strategaethau i atal risgiau yn effeithiol
- Yn sicrhau bod asiantaethau yn gallu herio eu hunain a'u partneriaid wrth gyflawni eu cyfrifoldebau unigol ac ar y cyd o ran diogelu'n effeithiol
- Yn sicrhau bod llais y person yn cael ei glywed a'i gydnabod yn ystod trafodaethau
- Yn hyrwyddo diwylliant o ddadansoddi ac adolygu'n feirniadol i sicrhau y caiff gwersi eu dysgu pan fo pobl yn dioddef o niwed oherwydd bylchau mewn polisïau, systemau neu ymarfer

BETH YW DIOGELU?

Diogelu yw amddiffyn plant ac oedolion rhag cael eu cam-drin neu esgeuluso. Mae cyfrifoldeb ar bawb i ddiogelu. Dylai pawb gael eu hamddiffyn rhag niwed, risg o niwed neu gam-drin, beth bynnag yw eu hoedran, rhyw, crefydd neu ethnigrwydd.

Cam-drin

Cam-drin yw pan fydd rhywun yn gwneud neu'n dweud pethau wrth berson arall i achosi niwed, i'w aflonyddu neu i godi ofn arno. Gall gynnwys gweithrediadau unigol neu ailadroddus.

Gall unrhyw un gyflawni cam-drin, ond fel arfer bydd y person yn rhywun y mae'r dioddefwr yn ymddiried ynddo – perthynas, ffrind, gweithiwr cyflogedig neu wirfoddolwr.

Gall cam-drin ddigwydd mewn llawer o ffyrdd

- **Corfforol** (bwrw, cicio, cadw person yn gaeth heb fod angen, gorddefnyddio neu gamddefnyddio meddyginiaethau, neu gosbi'n amhriodol)
- **Seicolegol / emosiynol** (bygythiadau am achosi niwed neu sarhau, perthnasoedd rheolaethol ac arwahanu, cam-drin geiriol neu hiliol).
- **Rhywiol** (gweithgaredd rhywiol nas dymunir nad yw'r oedolyn sydd mewn peryg wedi cytuno iddo a/neu wedi cael ei orfodi i gytuno).
- **Ariannol** (dwyn, twyllo neu orfodi ynglŷn ag eiddo neu ewyllys).
- **Esgeuluso** (methu â diwallu anghenion bob dydd yr unigolyn sydd mewn peryg, methu â chael gafael ar ofal neu wasanaethau meddygol neu fethu â rhoi meddyginiaeth a ragnodwyd).

BETH YW BWRDD DIOGELU PLANT?

Mae Bwrdd Diogelu Plant Rhanbarthol Caerdydd a Bro Morgannwg (BDPRh) yn ymgynnull cynrychiolwyr o bob un o'r prif asiantaethau a'r gweithwyr proffesiynol sy'n gyfrifol am ddiogelu plant yn ein rhanbarth.

Fel y nodwyd yng nghanllawiau Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 – Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl, amcanion y Bwrdd Diogelu Plant yw:

a) amddiffyn plant yn ei ardal sy'n cael profiad o gam-drin, esgeuluso neu fathau eraill o niwed neu sydd mewn peryg o gael y profiadau hynny, ac
b) atal plant yn ei ardal rhag bod mewn peryg o gam-drin, esgeuluso neu fathau eraill o niwed.

Er mwyn cyflawni'r amcanion hyn mae gan Fwrdd Diogelu nifer o swyddogaethau sydd ar gael i'w gweld yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 – Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl: Cyfrol 1 – Cyflwyniad a Throsolwg.

BETH YW BWRDD DIOGELU OEDOLION?

Mae Bwrdd Diogelu Oedolion Rhanbarthol Caerdydd a Bro Morgannwg (BDORhCaF) yn bartneriaeth aml-asiantaeth sy'n cynnwys sefydliadau statudol, annibynnol ac elusennol sy'n gweithio gyda'i gilydd i ddiogelu oedolion rhag cam-drin.

Rôl y Bwrdd yw sicrhau cydgysylltiad effeithiol y gwasanaethau er mwyn diogelu a hyrwyddo lles oedolion lleol a all fod mewn peryg o gael eu cam-drin a'u hesgeuluso yn ardal Caerdydd a Bro Morgannwg.

Bwriad y Bwrdd yw hyrwyddo ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o gam-drin ac esgeuluso ymysg defnyddwyr gwasanaeth, gofalwyr, gweithwyr proffesiynol, darparwyr gofal a'r gymuned ehangach ac mae'n gweithio i ysgogi diddordeb y gymuned a'i hymgysylltu er mwyn sicrhau bod Diogelu yn Ddyletswydd ar Bawb.

Mae prif amcanion y Bwrdd, fel y'u nodwyd yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol A Llesiant (Cymru) 2014, fel a ganlyn:

a) **diogelu** oedolion yn ei ardal sydd ag anghenion gofal a chymorth (p'un ai a yw'r awdurdod lleol yn diwallu unrhyw rai o'r anghenion hynny neu beidio) ac sy'n cael eu cam-drin neu eu hesgeuluso neu sydd mewn peryg o gael profiad o'r fath.
b) **Atal** yr oedolion hynny a nodwyd uchod sydd yn ei ardal, rhag bod mewn peryg o gam-drin neu esgeuluso

AELODAETH O FWRDD DIOGELU PLANT RHANBARTHOL CAERDYDD A BRO MORGANNWG

Mae'r aelodaeth yn cydymffurfio â chanllaw a grëwyd dan Ran 7 (Adran 134(2) o Ddeddf GCaLl 2014). Ceir rhestr o aelodau isod:

Enw	**Swydd**
Awdurdod Lleol	
Claire Marchant **CYD-GADEIRYDD**	Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol, Caerdydd
Lance Carver **CYD-CADEIRYDD**	Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol, Bro Morgannwg
Deborah Driffield	Cyfarwyddwr Cynorthwyol Gwasanaethau Plant, Caerdydd
Rachel Evans	Pennaeth Gwasanaeth y Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc, Bro Morgannwg
Alys Jones	Rheolwr Gweithredol Diogelu ac Adolygu, Caerdydd
Natasha James	Rheolwr Gweithredol Diogelu a Chanlyniadau Gwasanaeth, Bro Morgannwg
Bwrdd Iechyd	
Jason Roberts	Dirprwy Gyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
Linda Hughes-Jones	Pennaeth Diogelu, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
Katina Kontos	Meddyg a Enwebwyd Diogelu Plant, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
Ruth Walker	Cyfarwyddwr Nyrs Gweithredol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
Ymddiriedolaeth GIG Felindre	
Jayne Elias	Cyfarwyddwr Cynorthwyol Nyrsio a Gwella Gwasanaeth, Ymddiriedolaeth GIG Felindre
Susan Morgan	Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Gwella Gwasanaeth, Ymddiriedolaeth GIG Felindre
Heddlu De Cymru	
Stephen Murray	Uwch-arolygydd ar gyfer Uned Rheoli Sylfaenol y Dwrian, Heddlu De Cymru
Claire Evans	Uwch-arolygydd ar gyfer Uned Rheoli Sylfaenol Canolog, Heddlu De Cymru
Beth Aynsley	Rheolwr Amddiffyn Annibynnol ar gyfer Pobl Agored i Niwed, Heddlu De Cymru
Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol	
Hannah Williams	Pennaeth ar gyfer Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol yn UGL
Jane Foulner	Uwch Swyddog Prawf ar gyfer y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol
Cwmni Adsefydlu Cymunedol	
Victoria Harris	Pennaeth ar gyfer Cwmni Adsefydlu Cymunedol Cymru yn UGL
Addysg	
I'w gadarnhau	Cyfarwyddwr Cynorthwyol Addysg a Dysgu Gydol Oes, Caerdydd

David Davies	Pennaeth Cyflawni i Bawb ar gyfer Gwella Ysgolion a Chynhwysiant, Bro Morgannwg
Deborah Herald	Pennaeth Dros Dro Ysgol Gynradd Riverbank, Caerdydd
Anna Davies	Dirprwy Bennaeth Ysgol Gyfun Bryn Hafren, Bro Morgannwg
Tîm Diogelu Cenedlaethol, Iechyd Cyhoeddus Cymru	
Debbie Pachu	Nyrs Penodedig ar gyfer Tîm Diogelu Cenedlaethol GIG Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru
Alison Mott	Meddyg Penodedig ar gyfer y Tîm Diogelu Cenedlaethol, Iechyd Cyhoeddus Cymru
Fisâu a Mewnfudo y DU	
Kala Smith	Arbenigwr Technegol ac Arweinydd Plant Digwmni Sy'n Ceisio Lloches ar gyfer Fisâu a Mewnfudo y DU
Rhiannon Chatterton	Pennaeth Lloches Fisâu a Mewnfudo y DU
Tai	
Pam Toms	Rheolwr Gweithredol Gwasanaethau Tai, Bro Morgannwg
Jane Thomas	Cyfarwyddwr Cynorthwyol, Tai a Chymunedau, Caerdydd
Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid	
Paula Barnett	Rheolwr GTI y Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc, Bro Morgannwg
Kate Hustler	Rheolwr GTI y Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc, Caerdydd
Gwasanaethau Ambiwlans Cymru Ymddiriedolaeth GIG	
Nikki Harvey	Pennaeth Diogelu ar gyfer Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru
Trydydd Sector	
Tracy Holdsworth	Rheolwr Gwasanaeth, y Gymdeithas Genedlaethol er Atal Creulondeb i Blant
Emma Phipps Magill	Rheolwr Gwasanaeth, NYAS
Liz Baker	Cyfarwyddwr Cynorthwyol, Barnardo's
Morgan Fackrell	Prif Weithredwr Cymorth i Fenywod Caerdydd
Cynghorwyr Sy'n Bresennol	
Sheila Davies	Rheolwr Gweithredol ar gyfer y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd, Tîm Cyfreithiol Cymunedol, Caerdydd

AELODAETH O FWRDD DIOGELU OEDOLION RHANBARTHOL

Mae'r aelodaeth yn cydymffurfio â chanllaw a grëwyd dan Ran 7 (Adran 134(2) o Ddeddf GCaLl 2014). Ceir rhestr o aelodau isod:

Enw	**Swydd**
Awdurdod Lleol	
Lance Carver **CYD-GADEIRYDD:**	Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol, Bro Morgannwg
Claire Marchant **CYD-GADEIRYDD:**	Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol, Caerdydd
Amanda Phillips	Pennaeth Adnoddau a Diogelu, Bro Morgannwg
Suzanne Clifton	Pennaeth Gwasanaeth i Oedolion, Bro Morgannwg
Louise Barry	Cyfarwyddwr Cynorthwyol Gwasanaethau Oedolion, Caerdydd
Alys Jones	Rheolwr Gweithredol Diogelu ac Adolygu, Caerdydd
Natasha James	Rheolwr Gweithredol Diogelu a Chanlyniadau Gwasanaeth, Bro Morgannwg
Bwrdd Iechyd	
Ruth Walker	Cyfarwyddwr Nyrs Gweithredol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
Jason Roberts	Dirprwy Gyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
Linda Hughes-Jones	Pennaeth Diogelu, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
Suzanne Wood	Ymgynghorydd, Meddygaeth Iechyd y Cyhoedd Caerdydd a'r Fro
Jodie Dennis	Nyrs Arweiniol, Bwrdd Iechyd Abertawe Bro Morgannwg
Ymddiriedolaeth GIG Felindre	
Jayne Elias	Dirprwy Gyfarwyddwr Nyrsio a Gwella Gwasanaeth, Ymddiriedolaeth GIG Felindre
Tîm Diogelu Cenedlaethol, Iechyd Cyhoeddus Cymru	
Debbie Pachu	Nyrs Penodedig ar gyfer Tîm Diogelu Cenedlaethol GIG Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru
Heddlu De Cymru	
Claire Evans	Uwch-arolygydd ar gyfer Uned Rheoli Sylfaenol Canolog, Heddlu De Cymru

Steve Murray	Uwch-arolygydd, Uned Rheoli Sylfaenol y Dwrian, Heddlu De Cymru
Beth Aynsley	Rheolwr Amddiffyn Annibynnol ar gyfer Pobl Agored i Niwed, Heddlu De Cymru
Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol	
Hannah Williams	Pennaeth ar gyfer Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol yn UGL
Cwmni Adsefydlu Cymunedol	
Victoria Harris	Pennaeth ar gyfer Cwmni Adsefydlu Cymunedol Cymru yn UGL
CEM Caerdydd	
Helen Ryder	Llywodraethwr
Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwlans Cymru	
Nikki Harvey	Gweithiwr Proffesiynol a Enwebir ar gyfer Diogelu
Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru	
Shaun Moody	Rheolwr Grŵp Diogelwch Cymunedol a Phartneriaethau
Trydydd Sector	
Sandra Roberts	Canolfan Gwasanaethau Gwirfoddol y Fro
Rachael Nicholson-Wright	Cyfarwyddwr Action on Elder Abuse Cymru
Darparwyr Gofal	
Brian West	Cadeirydd Cartrefi Gofal Bro Morgannwg/Fforwm Gofal Cymru
Mandy Evans	Darparwyr Gofal Anableddau Dysgu a Byw â Chymorth
Cynghorwyr Sy'n Bresennol	
Carolyn Goodall	Uwch Gyfreithiwr, Gwasanaethau Cyfreithiol, Cyngor Bro Morgannwg

Mae cynrychiolwyr ychwanegol wedi eu cynnwys yn yr Is-grwpiau canlynol:

- **Adolygu Arfer Plant/Adolygu Arfer Oedolion Is-grŵp Adolygu Arferion**
- **Is-grŵp Hyfforddiant**
- **Is-grŵp Archwilio**
- **Is-grŵp Cyfathrebu ac Ymgysylltu**
- **Is-grŵp Polisïau, Gweithdrefnau a Phrotocol**
- **Grŵp Strategol Thematig**
- **Grwpiau Gorchwyl a Gorffen (yn ôl y gofyn)**


Strwythur
Byrddau Diogelu Plant/Oedolion Rhanbarthol
Grŵp Cynllunio Busnes Diogelu Oedolion
Grŵp Cynllunio Busnes Diogelu Plant
Is Grŵp Hyfforddi ar y Cyd
Is Grŵp Polisïau, Gweithdrefnau a Phrotocolau ar y Cyd
Is Grŵp Diogelu Plant/Oedolion Rhanbarthol ar y Cyd
Is Grŵp Cyfathrebu a Chysylltu ar y Cyd
Is Grŵp Archwilio Oedolion
Is Grŵp Archwilio Plant
Grŵp Thematig Oedolion
Paneli Diogelu Plant/Oedolion Rhanbarthol
Grŵp Thematig Plant
Grwpiau Gorchwyl a Gorffen (yn ôl yr angen)

MEYSYDD BLAENORIAETH AR GYFER 2019/2020

Y pedwar maes blaenoriaeth trosfwaol BDPRh Caerdydd a Bro Morgannwg ar gyfer 2019/20 yw:

Blaenoriaeth 1	**Gweithlu ac Ymarfer**
Blaenoriaeth 2	**Hawliau, Gwerthoedd a Llais y Person**
Blaenoriaeth 3	**Sector y Darparwyr Annibynnol**

Mae manylion o ran sut y bwriadwn gyflawni'r blaenoriaethau hyn wedi eu rhestru yn ein cynllun busnes isod.

<u>EGWYDDORION:</u>

Mae'r holl flaenoriaethau yn berthnasol i'r broses ddiogelu, oni bai y nodir fel arall.

Mae'r holl flaenoriaethau yn berthnasol i ddiogelu plant ac oedolion oni bai y nodir fel arall.

Blaenoriaeth 1 – Gweithlu ac Ymarfer

Canlyniad: Mae pobl yn fwy diogel oherwydd y cefnogir y gweithlu, sydd â sgiliau, galluedd a gwybodaeth i ddiogelu plant ac oedolion yn y rhanbarth yn effeithiol

Amcan: Mae'r bwrdd wedi cael sicrwydd bod ymarfer diogelu rhwng-asiantaethol effeithiol ar waith, a gefnogir gan bolisïau a gweithdrefnau, gyda hyfforddiant aml-asiantaeth cadarn.

Rhif:	Camau sydd eu hangen	Amserlen	Cyfrifoldeb
1	Rhoi dulliau ar waith i ddatblygu a hwyluso hyfforddiant aml-asiantaeth Datblygu strategaeth am-asiantaeth ar gyfer hyfforddiant a gwybodaeth: • Sicrhau bod hyfforddiant aml-asiantaeth ar gael i ddatblygu sgiliau, gwydnwch a hyder ymhlith y gweithlu. • Datblygu cytundeb hyfforddiant dwyochrog rhwng asiantaethau partneriaid • Cyhoeddi rhaglen ar y cyd ar wefan y Bwrdd • Mae partneriaid y bwrdd yn ymrwymo i ddarparu Fforymau Ymarfer a gaiff eu hwyluso gan asiantaethau partner a nodir • Cydgysylltu proses o ledaenu gwaith ymchwil, arfer da a diweddariadau ar bolisi fel y byddant yn cyrraedd y gynulleidfa darged i sicrhau y cedwir a datblygir cronfa wybodaeth yr ymarferwyr.	Mawrth 2020 Mehefin 2019	**Is-grŵp Hyfforddiant BDRh a Bwrdd Partneriaeth Gweithlu Rhanbarthol** **Is-grŵp Hyfforddiant ac Is-grŵp Cyfathrebu ac Ymgysylltu** **Alys Jones** (Rheolwr Gweithredol Diogelu ac Adolygu, Caerdydd) **Natasha James** (Rheolwr Gweithredol Diogelu a Chanlyniadau Gwasanaeth, Bro Morgannwg)

2	Dosbarthu gwersi a ddysgwyd gan Adolygiadau Ymarfer Plant ac Adolygiadau Ymarfer Oedolion ymysg gweithwyr proffesiynol ar draws y rhanbarth i ddatblygu dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth o'r themâu a'r tueddiadau sydd y mwyaf cyffredin o fewn yr ymarfer diogelu • Sicrhau bod yr holl asiantaethau yn atebol am eu cyfraniad mewn system adolygu effeithiol drwy greu fframwaith atebolrwydd aml-asiantaeth • Mae'r Bwrdd yn sefydlu systemau effeithiol ar gyfer monitro, dwyn i gyfrif a gwerthusol effaith y gwersi o'r adolygiadau.	Medi 2019	**Alys Jones (**Rheolwr Gweithredol Diogelu ac Adolygu, Caerdydd) **Natasha James** (Rheolwr Gweithredol Diogelu a Chanlyniadau Gwasanaeth, Bro Morgannwg) **Steve Murray (**Uwch-arolygydd, Uned Rheoli Sylfaenol y Dwrian, Heddlu De Cymru) **Is-grŵp Adolygu Arfer Plant/Adolygu Arfer Oedolion, Amanda Phillips** (Pennaeth Adnoddau a Diogelu, Bro Morgannwg)
3	Defnyddio gwybodaeth o ddata ymchwil amrywiol i ddeall cryfderau a heriau ein systemau diogelu er mwyn cefnogi gwelliannau parhaus. • Deall a gosod llinell sylfaen ar gyfer gwybodaeth ar berfformiad ar gyfer diogelu, gan: - gwestiynu'r setiau data a ddefnyddir gan y byrddau eraill - Creu fframwaith Holi ac Ateb ar gyfer y Bwrdd • Datblygu cyfres o ddangosyddion perfformiad sy'n bwydo i mewn i'r Adroddiad Blynyddol • Cytuno ar ddull systematig ar gyfer casglu a hyrwyddo arferion da a sicrhau y gweithredir ar welliannau	Mawrth 2020	**Alys Jones (**Rheolwr Gweithredol Diogelu ac Adolygu, Caerdydd) **Natasha James** (Rheolwr Gweithredol Diogelu a Chanlyniadau Gwasanaeth, Bro Morgannwg) **Rheolwr Uned Busnes Diogelu** **Is-grŵp Archwilio Oedolion**

	• Gosod llinell sylfaen ar gyfer y cynnig rhagweithiol ar gyfer eiriolaeth a monitro.		
4	Gweithredu Gweithdrefnau Diogelu Cymru Gyfan gan sicrhau dealltwriaeth a chysondeb yn lleol Bod wedi cytuno polisïau sgrinio, gwerthuso a phenderfynu ar gyfer y Byrddau Diogelu Rhanbarthol Caerdydd a'r Fro a'r holl sefydliadau sydd yn rhan ohonynt. • Datblygu'r ddogfen mewn Grŵp Gorchwyl a Gorffen • Ceisio cytundeb ar gyfer gweithredu'r ddogfen a'r cynllun • Hyfforddiant • Rhoi cynllun archwilio ar waith	O Hydref 2019 ymlaen Mawrth 2020	**Pawb** **Is-grŵp Polisïau, Gweithdrefnau a Phrotocolau drwy Grŵp Gorchwyl a Gorffen** **Grŵp Gorchwyl a Gorffen Plant i'w arwain gan Liz Baker, Barnardo's** **Grŵp Gorchwyl a Gorffen Oedolion i'w arwain gan Amanda Phillips a Louise Barry**
5	Gweithredu'n effeithiol y strategaeth ar gyfer ecsploetiaeth a bwrw ymlaen gyda chamau blaenoriaethol drwy gydol y flwyddyn.	Gweithredu erbyn Mehefin 2019	**Cyd-grŵp Thematig ar gyfer Ecsploetiaeth ac Is-grŵp Hyfforddiant ar y cyd**
6	Adolygu p'un a oes ymarfer diogelu effeithiol ar waith ynglŷn â digartrefedd	Cyflwyniad ar ddigartrefedd a diogelu i'r	**Louise Barry/ Jane Thomas** **Mike Ingram/Pam Toms**

		Bwrdd ym mis Mehefin 2019	

Blaenoriaeth 2 - Hawliau, Gwerthoedd a Llais y Person

Canlyniad: Mae plant , ac oedolion, sydd ag anghenion gofal a chymorth, yn teimlo eu bod yn cael eu clywed a'u grymuso mewn proses ddiogelu

Amcan: Ymgorffori dull seiliedig ar hawliau drwy'r system ddiogelu gan gynnwys ymarfer unigol, gwaith y bwrdd diogelu a phopeth rhwng y ddau.

Rhif:	Camau sydd eu hangen	Amserlen	Cyfrifoldeb
1	Comisiynu sefydliad arbenigol i ystyried yr ymarferion presennol ynglŷn â llais yr oedolyn o ran y broses diogelu, gan gynnwys y cynadleddau amddiffyn oedolion ***Oedolion**	Medi 2019, adrodd erbyn Rhagfyr 2019	**Is-grŵp Cyfathrebu ac Ymgysylltu**
2	Mapio prosesau ymgysylltu â rhanddeiliaid ac ymgynghori o ran y rhwydweithiau defnyddwyr presennol. Nodi rhwydweithiau defnyddwyr presennol y gellir eu defnyddio i ddatblygu grŵp ymgynghori 'arbenigwyr drwy brofiad'.	Medi 2019 Rhag 2019	**Is-grŵp Cyfathrebu ac Ymgysylltu**
3	Cytuno a gweithredu argymhellion o'r adroddiad NYAS	Ebrill 2019	**Bwrdd Diogelu Rhanbarthol**
4	Sicrhau bod y prosesau Amddiffyn Plant yn cymryd i ystyriaeth y profiadau y'u cafodd y plentyn.	Medi 2019	**Is-grŵp Archwilio ar gyfer Plant**

Blaenoriaeth 3 – Sector y Darparwyr Annibynnol

Canlyniad: Sicrwydd bod ansawdd y gofal gartref ac mewn cartrefi gofal o safon uchel

Amcan: Sicrwydd ansawdd cyson a chadarn ledled y rhanbarth i lunio ymarfer diogelu

Rhif:	Camau sydd eu hangen	Amserlen	Cyfrifoldeb
1	Alinio protocolau y ddau awdurdod lleol a mabwysiadu un protocol perfformiad darparwyr ar draws y BDRh gan sicrhau yn y modd hwn fod dull Sicrwydd Ansawdd cyson a chadarn ar waith ar draws ardal y bwrdd ***Oedolion**	Mehefin 2019	**Louise Barry** (Cyfarwyddwyr Cynorthwyol Gwasanaethau Oedolion, Caerdydd) **Amanda Phillips** (Pennaeth Adnoddau a Diogelu, Bro Morgannwg)
2	Gweithredu'r weithdrefn ar y cyd ar gyfer Uwchgyfeirio Pryderon a chyflwyno trosolwg o weithgarwch uwchgyfeirio pryderon i'r Bwrdd yn chwarterol fel cam gweithredu sefydlog ar yr agenda ***Oedolion**	O Fehefin 2019	**Amanda Phillips (**Pennaeth Adnoddau a Diogelu, Bro Morgannwg) **Louise Barry** (Cyfarwyddwyr Cynorthwyol Gwasanaethau Oedolion, Caerdydd)
3	Edrych sut y gellir gwella ansawdd a chynnig y gwasanaethau gofal a chymorth ar gyfer plant ar draws y rhanbarth o safbwynt diogelu ***Plant**	Mehefin 2019	**Deborah Driffield** **Rachel Evans**
4	Datblygu protocol ar y cyd ar gyfer Uwchgyfeirio Pryderon am blant	Erbyn Medi 2019	**Angela Bourge** **Amanda Phillips**

CYLLIDEB Y BWRDD

Sefydliad	Cyfraniad cyfuno arfaethedig (%)	Dosbarthiad yn ôl sefydliad	Cyfraniad presennol at BDPRh wedi'i ddosbarthu (%)	Dosbarthiad arfaethedig y cyfraniadau (%)
Awdurdodau Lleol	60%	Cyngor Caerdydd	67%	£60,000.00
		Cyngor Bro Morgannwg	33%	£30,000.00
HEDDLU DE CYMRU	10%	Heddlu De Cymru	100%	£15,000.00
Iechyd	25%	Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro	81.25%	£30,468.75
		GIG Felindre	18.75%	£7,031.25
Cyfnod Prawf	5%	CAC Cymru	50%	£3,750.00
		Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr	50%	£3,750.00
Cyfanswm	100%			£150,000

Cysylltwch â ni:

Cysylltwch â'r Uned Busnes Diogelu am unrhyw wybodaeth ychwanegol drwy'r ffyrdd canlynol:

Cyfeiriad:

Uned Busnes Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Caerdydd a'r Fro

Ystafell 342

Neuadd y Sir

Caerdydd

CF10 4UW

☎ (02920) 871891

E-bost: BDRhCaerdyddarFro@caerdydd.gov.uk